# Urdd Gobaith Cymru

## MEMORANDWM CYMDEITHASU

urdd.org

**Rhif Cwmni: 00263310**

**Deddf Cwmniau 1985 a 1989 a 2006**

---

**CWMNI PREIFAT WEDI EI GYFYNGU GAN WARANT**

---

**MEMORANDWM CYMDEITHASU**

---

**CWMNI URDD GOBAITH CYMRU**
**Elusen Rhif: 524481**

---

**1** Enw'r Cwmni yw Cwmni Urdd Gobaith Cymru (ac yn y ddogfen hon fe'i elwir "yr Elusen").

**2** Fe leolir swyddfa gofrestredig y Cwmni yng Nghymru.

**3** Amcanion yr Elusen ("yr Amcanion") yw:-

(a) (1) i hyrwyddo pob ac unrhyw ddiben er lles y gymuned y bernir yn awr neu yn y dyfodol yn unol â'r gyfraith eu bod yn rhan elusennol, ac yn enwedig i hyrwyddo addysg a chrefydd a hybu iechyd a dinasyddiaeth dda; a

(2) sicrhau bod holl ieuenctid Cymru yn cael cyfle trwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, trwy feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

(b) Yn ogystal, ac yn fwy penodol, bydd ei Amcanion hefyd yn estyn at:-

(1) Ddarparu ystod eang o weithgareddau i aelodau mudiad Urdd Gobaith Cymru ("yr Urdd") trwy Gymru i gynnwys digwyddiadau wythnosol, gyrsiau a thripiau achlysurol ar ffurf cyrsiau hyfforddiant â meysydd diddordeb penodol neu ddigwyddiadau cyffredinol a theithiau cyfnewid yn a thu allan i Gymru. Cyflawnir hyn trwy'r ddelfryd o wasanaeth i Gymru i Gyd-ddyn ac i Grist.

(2) Trefnu digwyddiadau chwaraeon, a hyrwyddo chwaraeon a allai gynnwys trefnu clybiau wythnosol lleol, cyrsiau cenedlaethol a chystadlaethau;

(3) Trefnu a chynnal Eisteddfodau Lleol, Rhanbarth a Chenedlaethol yn flynyddol i blant a phobl ifanc;

(4) Hyrwyddo dawnsio, llefaru, canu, actio, perfformio a’r celfyddydau yn gyffredinol;

(5) Sefydlu a datblygu gwersylloedd preswyl sy’n cynnig profiadau ymestynnol i blant a phobl ifanc sy'n cynnwys profiadau antur awyr agored, profiadau chwaraeon a phrofiadau celfyddydol;

(6) Cyhoeddi cylchgronau a cryno-ddisgiau i blant a phobl ifanc yn rheolaidd;

(7) Darparu gwasanaethau gwybodaeth ac adnoddau i arweinwyr canghennau ac aelodau’r Urdd, gan gynnwys cynnal gwefan;

(8) Cynyddu’r defnydd o’r iaith Gymraeg trwy gyfrwng y gweithgareddau a’r profiadau a gynigir gan yr Urdd;

(9) Datblygu unrhyw brosiect sy'n cyfoethogi profiadau plant a phobl ifanc, gan gynnwys prosiectau dyngarol; ac

(10) Hybu gwaith ieuenctid trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

(11) Croesawu aelodau beth bynnag fo’u cred, hil, iaith, gallu neu ryw.

**4** (a) Yn ogystal ag unrhyw bwerau sydd ganddo, mae gan yr Elusen y pwerau canlynol er mwyn hybu ac hyrwyddo'r Amcanion (ond nid ar gyfer unrhyw bwrpas arall):

(1) I godi arian. Yn benodol i dderbyn rhodd o unrhyw eiddo, p’run ai ei fod yn amodol ar unrhyw ymddiriedolaeth arbennig ar gyfer un neu fwy o’r Amcanion, ac i gymryd camau trwy apeliadau ysgrifenedig neu bersonol, cyfarfodydd cyhoeddus neu fel arall a fydd o bryd i’w gilydd yn cael eu barnu yn addas er mwyn ennill cyfraniadau i goffrau’r Elusen trwy gyfrwng becwêdd, rhoddion, tanysgrifiadau blynyddol neu fel arall. Drwy wneud hyn, ni ddylai’r Elusen ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachol sylweddol parhaol, ac mae’n rhaid cydymffurfio â unrhyw rheoleiddiau statudol perthnasol.

(2) I brynu, cymryd prydles neu gyfnewid, llogi neu fel arall i feddiannu unrhyw eiddo, ac i’w gynnal a’i gyfarparu ar gyfer ei ddefnyddio.

(3) I werthu, prydlesu neu fel arall waredu ar unrhyw ran neu'r gyfran o eiddo'r Elusen. Drwy ymarfer y pwer hwn, mae'n rhaid i’r Elusen gydymffurfio fel yn briodol â Rhannau 36 a 37 o Ddeddf Elusennau 1993.

(4) I godi, cynnal, gwella, cadw a newid a dymchwel unrhyw adeiladau ar gyfer dibenion yr Elusen.

(5) I argraffu a chyhoeddi unrhyw bapurau newydd, llyfrau neu bamffledi y mae'r Elusen o'r farn y bydd yn hyrwyddo'r Amcanion.

(6) I fenthyg arian ac i wystlenni a chreu morgais ar unrhyw ran neu'r cyfan o eiddo'r Elusen, fel gwarant ar gyfer ad-dalu arian a fenthyciwyd. Rhaid i'r Elusen gydymffurfio fel sy'n briodol gyda Rhannau 38 a 39 o Ddeddf Elusennau 1993 os yw'n dymuno morgeisi tir.

(7) I danysgrifio i unrhyw elusennau lleol neu eraill ac i ganiatau rhoddion ar gyfer unrhyw bwrpas elusennol cyhoeddus ac i sefydlu, hyrwyddo a chynorthwyo mewn sefydlu neu hyrwyddo ac i danysgrifio i, neu ddod yn aelod o unrhyw Gymdeithas arall sydd ag amcanion tebyg, neu'n debyg yn rhannol, i Amcanion yr Elusen neu'r sefydliad neu hyrwyddiad o'r cyfryw Gymdeithas fyddai o fudd i'r Elusen ac sydd, yn ôl ei gyfansoddiad, yn gwahardd dosbarthu ei incwm neu ei eiddo ymysg ei aelodau o leiaf, i'r un graddau ag sy'n cael ei orfodi ar yr Elusen gan Gymal 5 o'r Memorandwm hwn.

(8) I afael, uno gydag neu i fynd i bartneriaeth neu drefniant cyd-fenter gydag unrhyw elusen a ffurfiwyd ar gyfer unrhyw un o'r Amcanion.

(9) I herio, cyflogi a thalu staff, gweithwyr llawrydd, ymgynghorwyr, is-gontractwyr a gweithwyr eraill fel sydd angen o dro i dro er mwyn cyflawni gwaith yr Elusen ac i dalu cyflog, cyfraniadau, rhoddion a phensiynau iddynt.

(10) I:

(i) ddyddodi neu fuddsoddi arian;

(ii) gyflogi rheolwr coffrau proffesiynol; a

(iii) threfnu i fuddsoddiadau neu eiddo arall yr Elusen i gael eu ddal yn enw enwebydd ac i ymgymryd â, ac i gyflawni unrhyw ymddiriedolaeth sydd yn ymddangos fel petai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn berthnasol i unrhyw amcanion yr Elusen.

(11) I ddarparu yswiriant indemniti i'r Cyfarwyddwyr neu unrhyw swyddog arall o'r Elusen mewn perthynas ag unrhyw rhwymedigaeth a gyfeirir ato yng nghymal (b) isod, ond yn amodol ar y cyfyngiadau a gyfeirir atynt yng nghymal (c) isod.

(12) I dalu costau ffurfio a chofrestru'r Elusen fel cwmni yn ogystal ag fel Elusen, allan o goffrau'r Elusen.

(13) I gyflawni pob gofyniad arall cyfreithiol sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Amcanion.

(b) Y rhwymedigaethau a gyfeirir atynt yng nghymal 4(a)(11) uchod yw:

(1) unrhyw rwymedigaeth sydd drwy rym unrhyw reol gyfreithiol fel arall yn berthnasol i gyfarwyddwr y cwmni o ran esgeulustod, methiant dyletswydd, methiant ymddiriedaeth y mae ef neu hi yn euog ohono mewn perthynas â’r Elusen; ac

(2) y rhwymedigaeth i gyfrannu at asedau’r Elusen, fel y nodwyd yn Rhan 214 o Ddeddf Methdaliad 1986 (masnachu anghyfiawn).

(c) (1) Mae’r canlynol wedi eu heithrio o gymal (b)(1):

(i) dirwyon;

(ii) costau amddiffyn erlynedigaethau troseddol aflwyddiannus am droseddau yn ymwneud â thwyll, anonestrwydd neu gamymddygiad pwrpasol neu ddi-hid Cyfarwyddwr neu swyddog arall; a

(iii) rhwymedigaethau i’r Elusen sy’n ganlyniad i ymddygiad roedd y Cyfarwyddwr neu swyddog arall yn ymwybodol ohono, neu sy’n rhaid tybio eu bod yn gwybod nad oedd yn niddordebau gorau yr Elusen, neu nad oedd y cyfryw berson yn poeni oedd yn niddordeb gorau yr Elusen.

(2) Mae wedi ei eithrio o gymal (b)(2) unrhyw rhwymedigaeth i wneud cyfraniad o’r fath ble bo sail rhwymedigaeth y Cyfarwyddwr yw ei ymwybyddiaeth ef neu hi cyn i’r Elusen ddiddymu’n fethdalus (neu fethiant di-hid i ddod o hyd i’r wybodaeth hwnnw) nad oedd unrhyw ragolwg rhesymol y byddai’r Elusen yn osgoi diddymu’n fethdalus.

**5** (a) Bydd incwm ac eiddo'r Elusen yn mynd yn unig at hyrwyddo’r Amcanion, ac ni ddylai unrhyw gyfran o hwnnw gael ei dalu neu ei drosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy fuddran, bonws neu fel arall drwy elw, i aelodau'r Elusen ac ni ddylai unrhyw aelod o Fwrdd yr Elusen gael ei apwyntio i unrhyw swydd drwy gyflog neu ffioedd neu dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth neu unrhyw fudd-dal mewn arian neu werth arian o’r Elusen, oni bai fod dim yn hyn yn atal y taliad ar delerau mewn fudd gan yr Elusen:-

(1) o dâl resymol a chywir i unrhyw aelod, swyddog neu wasanaethydd yr Elusen (nad sy'n aelod o’r Bwrdd) am unrhyw wasanaethau a rhoddwyd i’r Elusen;

(2) o log ar arian a fenthyciwyd gan unrhyw aelod o’r Elusen ar gyfradd blynyddol nad sy'n fwy na 2 y cant yn llai na’r gyfradd llogi isaf ar y pryd a bennwyd gan Fanc Lloegr ar y pryd, neu 3 y cant, pa un bynnag sydd fwyaf;

(3) o rent rhesymol a theg am yr anheddau a logir neu a osodwyd i'r Elusen gan unrhyw aelod o'r Elusen;

(4) o ffioedd, cydnabyddiaeth neu unrhyw fudd-dal mewn arian neu werth arian i gwmni y mae aelod o'r Elusen hefyd yn aelod sy'n dal dim mwy na 1% o gyfalaf y cwmni hwnnw; ac

(5) i unrhyw aelod o'r Elusen o dreuliau.

**6** Mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig.

**7** Mae pob aelod yn addo, pe diddymir yr Elusen tra fo ef neu hi yn aelod neu o fewn deuddeg mis wedi iddo ef neu hi beidio a bod yn aelod, i gyfrannu swm (heb fod yn fwy na £10) a allai gael ei fynnu wrtho ef neu hi tuag at dalu dyledion a rhwymedigaethau'r Elusen a achoswyd cyn iddo ef neu hi beidio a bod yn aelod, ac am gostau, taliadau a threuliau'r dirwyn i ben ac am gymhwyso hawliau'r cyfranwyr ymhlith eu gilydd.

**8** Os bydd yn aros, ar ôl dirwyn i ben neu ddiddymu'r Elusen ar ôl bodloni pob un o'i dyledion a'i rhwymedigaethau, unrhyw eiddo o gwbl, rhaid peidio â thalu neu ddosbarthu'r eiddo hwnnw ymysg aelodau'r Elusen ond fe'i rhoddir neu'i drosglwyddir i ryw sefydliad arall neu sefydliadau eraill sydd ag amcanion elusennol tebyg i amcanion yr Elusen a fydd yn gwahardd dosbarthu ei incwm a'i eiddo neu eu hincwm a'u heiddo ymhlith ei aelodau neu eu haelodau i raddau o leiaf cyn gymaint ag a osodir gan yr Elusen o dan neu yn rhinwedd Cymal 5 y ddogfen hon, ac fe benderfynir ar y sefydliad hwnnw neu'r sefydliadau hynny gan aelodau'r Elusen adeg y diddymu neu cyn hynny.

**9** Cedwir cofnodion gwir o'r symiau arian a dderbyniwyd ac a wariwyd gan yr Elusen, a'r materion hynny sy'n berthnasol i'r derbyniadau a'r gwariant hynny ac o eiddo, credydau a rhwymedigaethau'r Elusen, ac yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau rhesymol ynghylch amser a dull archwilio'r cyfrifon hynny y gellir eu gorfodi yn unol â rheoliadau'r Cwmni, fe fydd y cyfrifon ar agor i'w harchwilio gan yr aelodau. Unwaith o leiaf ymhob blwyddyn, fe fydd cyfrifon yr Elusen yn cael eu harchwilio a bydd cywirdeb y fantolen yn cael ei wirio gan un neu fwy o Archwilwyr cymwys.